Wales Arts Health & Well-being Network
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru

**Pecyn Gwybodaeth**

**Rheolwr Rhaglen Llawrydd ar gyfer *Camu i Mewn***

**Cynnwys**


1. **Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad**
2. **Y Rôl**
3. **Disgrifiad o Camu i Mewn**
4. **Sut i Ymgeisio**
5. **Cyfrifoldebau Allweddol**
6. **Meini Prawf Hanfodol y Rôl**
7. **Dymunol**
8. **WAHWN (Rhwydwaith Celfyddydau Iechyd a Llesiant Cymru)**


Stepping In
Camu i Mewn

**Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad**

Mae WAHWN yn credu mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn ymrwymo i ehangu mynediad i sector y celfyddydau ac iechyd.

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, Anabl neu niwrowahanol, mae cymorth ar gael i gwblhau cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod sut y gall y broses ymgeisio weithio i chi. Er enghraifft gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn cyflwyno cais, cynnig cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau amgen ar gyfer ymgeisio e.e. ffeiliau fideo neu sain. Cewch chi ein harwain ni.

Cysylltwch â info@wahwn.c**ymru** i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

**Camu i Mewn**
Rhaglen hyfforddi a mentora ar gyfer carfan fach o 4 mentai yw 'Camu i Mewn' a gyllidir gan Loteri Celfyddydau ac Iechyd Cyngor Celfyddydau Cymru ac a gyflwynir mewn partneriaeth gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**; **PeopleSpeakUp, Datblygu Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili, Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Ysgol Gelf Caerdydd.**

Cynlluniwyd Camu i Mewn mewn ymateb i ddiffyg amrywiaeth yn y gweithlu creadigol ym maes y celfyddydau ac iechyd. Y nod yw meithrin carfan o ymarferwyr i gyflwyno prosiectau mewn lleoliadau gofal iechyd sy’n rhannu profiad byw pobl o gymunedau lleiafrifedig. Anogir ymarferwyr mentai â phrofiad byw o iechyd meddwl, cefndiroedd mwyafrif byd-eang, eithrio cymdeithasol neu gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel i ymgeisio i’r rhaglen a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn wythnos lawn o hyfforddiant preswyl dwys, cysgodi artist profiadol ar brosiect byw mewn lleoliad iechyd neu gymunedol am hyd at 10 diwrnod (gyda chymorth partneriaid y prosiect), derbyn sesiynau mentora, bwrsariaeth a chymorth cyfannol gan gynnwys goruchwyliaeth a chymorth cymheiriaid.

**Y Rôl**
Mae WAHWN yn chwilio am Reolwr Rhaglen llawrydd rhagorol yng Nghymru â phrofiad o oruchwylio a chyflenwi prosiectau aml-bartner, hyfforddiant neu raglenni mentora.

**Y Rôl** Rheolwr Rhaglen, contract tymor penodol 1 Ebrill – 30 Hydref 2024

**Atebol i**: Prif Swyddog Gweithredol WAHWN

**Lleoliad**: Cymru. Disgwylir gweithio cyfunol o bell ac wyneb yn wyneb.

**Ffi:** £9000 (yn cynnwys TAW) yn seiliedig ar 36 dydd @ £250 y dydd

**Costau Mynediad:** Mae WAHWN yn annog y gweithlu i ddisgrifio eu gofynion mynediad mewn atodiad mynediad a bydd yn ceisio diwallu anghenion a nodir drwy drafodaeth

**Dyddiad Cau**: Hanner dydd, dydd Gwener 20 Mawrth 2024

**Cyfweliadau**: w.y.d 25 Mawrth 2024 (ar Zoom)

Mae WAHWN yn dymuno penodi unigolyn sy'n meddu ar arbenigedd ac yn gallu gweithio'n gyflym i gefnogi cyflenwi, olrhain ac adrodd effeithlon ar draws rhaglen Camu i Mewn ac a all reoli perthynas gyda phartneriaid niferus. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid prosiect, hyfforddwyr ac ymarferwyr allanol, mentoriaid, ymarferwyr mentai, gwerthuswr prosiect a thîm WAHWN i gyflenwi'r prosiect, gan gynnwys cyflenwi ac adrodd ar y prosiect o'r dechrau i'r diwedd.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Rhaglennu a goruchwylio wythnos hyfforddi breswyl ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (24 Mehefin – 28 Mehefin 2024 yn gynwysedig) sy'n cynnwys hyfforddiant, sgyrsiau gyda'r nos a gweithdai.

- Gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol i'r gwerthuswr, partneriaid, meinteion, hyfforddwyr a mentoriaid

- Gyda phartneriaid y prosiect, cydlynu lleoliadau byw, cysgodi a chymorth mentora

- Diweddariad bob pythefnos mewn cyfarfodydd gyda Phrif Swyddog Gweithredol WAHWN

- Gweithio gyda Phrif Swyddog Gweithredol WAHWN i sicrhau adroddiadau cywir ac amserol mewn perthynas ag incwm a gwariant y prosiect

- Amlygu gwersi, risgiau a heriau ynghylch cyflenwi'r prosiect mewn modd amserol ac adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol

- Cydlynu goruchwylio a chymorth llesiant i'r ymarferwyr mentai

- Contractio hyfforddwyr a chyfranwyr

- Cynorthwyo gwerthuswr y rhaglen (e.e. sefydlu grwpiau ffocws, sesiynau myfyriol)

- Hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn unol â'n blaenoriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Bydd Prif Swyddog Gweithredol WAHWN yn cynnig cymorth ymarferol megis talu ffioedd hyfforddwyr a chyfranwyr, cynorthwyo i recriwtio menteion ac adrodd i Gyngor Celfyddydau Cymru.

**Meini Prawf Hanfodol y Rôl**

- Gwybodaeth gadarn a phrofiad o gyflenwi prosiectau aml-bartner
- Ar gael i fynychu'r wythnos hyfforddi breswyl wyneb yn wyneb (24-28 Mehefin).
- Ymrwymiad i gefnogi arfer gorau o ran cynhwysiant ac amrywiaeth
- Deall a gwerthfawrogi'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd â diddordeb mewn gweithio yn y diwydiannau creadigol
- Profiad amlwg o reoli prosiectau a chyllidebau
- Trefnydd effeithlon â chymhelliant, a'r gallu i gyflenwi prosiect a'i gwblhau'n llwyddiannus
- Gallu datrys problemau a phrofiad o ddatblygu, olrhain a rheoli rhaglenni
- Profiad o reoli perthynas, gweithio a chyfathrebu gyda chroestoriad eang o bartneriaid prosiect ar amrywiol lefelau

- Gallu defnyddio rhaglenni Microsoft Office a hyfedr yn y defnydd o Zoom a/neu Teams

**Dymunol**

- Profiad a dealltwriaeth o'r sector celfyddydau ac iechyd ehangach
- Rhugl yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar)
- Deall rôl goruchwylio a chymorth llesiant
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl Cydlynwyr Celfyddydau mewn Byrddau Iechyd, sefydliadau celfyddydol a chyrff cyhoeddus

**Sut i Ymgeisio**

Mae WAHWN yn credu mewn sector sy'n gweithio i bawb ac yn ymrwymo i ehangu mynediad i'r gweithlu yn y sector celfyddydau ac iechyd.

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat ymgeisio amgen gyda chi, ebostiwch CV a llythyr eglurhaol (dim mwy na 2 dudalen) i info@wahwn.cymru yn amlinellu eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rheini a amlinellir yn y cais hwn, a nodi 2 ganolwr. Defnyddiwch y llinell pwnc RHEOLWR RHAGLEN CAMU I MEWN yn eich ebost. Gofynnwn hefyd i chi gwblhau ein ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. Cyswllt

Dyddiad cau ceisiadau: **Hanner dydd, dydd Mercher 20 Mawrth 2024**

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad byr ar-lein (Zoom) **w.y.d. 25 Mawrth.**

**WAHWN**

WAHWN (Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru), a sefydlwyd yn 2013, yw'r corff cymorth sector cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer y celfyddydau, iechyd a llesiant. Mae ein gwaith yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ac ysgogwyr allweddol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Conffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae ein haelodaeth ar gynnydd ac yn cynnwys dros 800 o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ac iechyd, gan gynrychioli sectorau'r celfyddydau, iechyd ac addysg uwch a gweithio ar draws yr ystod lawn o ymarfer celfyddydol mewn lleoliadau iechyd, celfyddydau a chymunedol. Mae WAHWN yn falch o'i rôl ganolog mewn nifer o fentrau partneriaeth allweddol ac o'n safle yn cynnig llais cenedlaethol i'r sector ar lefel strategol, gan ddangos arfer gorau wrth roi polisïau sy'n bodoli ar waith a dylanwadu ar bolisïau newydd..

https://wahwn.cymru

Wales Arts Health & Well-being Network
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru

Stepping In
Camu i Mewn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CARDIFF
SCHOOL of ART & DESIGN

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

GIG NHS Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

GIG NHS Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

PSU
PEOPLE SPEAK UP